

Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant

Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg Adolygiad Ymarfer Plant Cryno

Parthed: CTMB 5/2020 (Plentyn O)

Amlinelliad bras o'r amgylchiadau sydd wedi arwain at gynnal yr Adolygiad

Mae Adolygiad Ymarfer Pant Cryno wedi'i gynnal gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn unol â chanllawiau "Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 2", Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r canllawiau yn nodi:

Rhaid i Fwrdd gynnal Adolygiad Ymarfer Plant cryno yn ei ardal pan fo achos o gam-drin neu esgeuluso plentyn naill ai wedi digwydd neu mae amheuaeth ei fod e wedi digwydd, ac mae'r plentyn:

- * wedi marw; neu
- * wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- * wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu'i ddatblygiad; **ac**

nad oedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn blentyn a oedd yn derbyn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu'r dyddiad y mae awdurdod lleol neu bartner perthnasol yn nodi bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu'i ddatblygiad.

Diben Adolygiad Ymarfer Plant yw dysgu sut y mae modd i asiantaethau gwahanol ddysgu er mwyn gwella ymarfer yn y dyfodol. Mae amgylchiadau'r achos yma fel a ganlyn:

Cafodd y gwasanaethau brys eu galw i'r cartref ar ôl i'r fam ddod o hyd i'w phlentyn tri mis oed wyneb i waered yn eu crud ac yn anymatebol. Roedd y fam yn rhoi Dadebru Cardio-Pwlmonaidd (CPR) gyda chymorth dros y ffôn nes i griw'r ambiwlans gyrraedd. Wedi iddyn nhw gyrraedd, nodwyd bod rigor mortis a hypostasis yn bresennol ac roedd dadebru yn aflwyddiannus.

Dyweddodd y rhieni bod y plentyn wedi'i roi i gysgu, yn ei ystafell ei hun, am 7pm. Cysgodd y plentyn mewn cot teithio gyda gobennydd a blancedi. Dywedodd rhieni y clywyd y plentyn yn chwerthin yn ei gwsg tua 10pm ac yna'n setlo. Ni welwyd y plentyn gan y naill riant na'r llall o'r amser y rhoddwyd ef i gysgu tan y bore am 10am.

Bu'r heddlu'n bresennol, dilynwyd y protocolau perthnasol, a chyflwynwyd ffeil crwner.

Daeth adroddiad Cwest i'r casgliad bod y plentyn wedi marw'n sydyn ac yn annisgwyl, heb achos marwolaeth adnabyddadwy na sefydledig. Nodwyd ffactorau sy'n cynyddu'r risg o syndrom marwolaeth sydyn babanod – roedd y plentyn wedi bod yn sâl, roedd gobennydd oedolyn yn ei amgylchedd cysgu, roedd y plentyn yn cysgu ar ei ben ei hun, ac nid oedd wedi'i roi ar fatres fflat, gadarn. Daeth y crwner i'r casgliad bod y ffactorau hyn gyda'i gilydd â chysylltiad amserol, o leiaf, â marwolaeth y plentyn.

Roedd sawl asiantaeth yn adnabod y teulu, ac roedd y ddau riant yn ymwneud â gwasanaethau statudol cyn i'w perthynas ddechrau a chyn genedigaeth eu plentyn.

Strwythur y Teulu

Ar adeg y digwyddiad roedd yr aelodau o'r teulu a oedd yn byw yn y cyfeiriad cartref fel a ganlyn:

- * Mam Plentyn O
- * Tad Plentyn O
- * Hanner brawd neu chwaer 1, 3 oed, 2 oed ar adeg y digwyddiad
- * Plentyn O (ymadawedig)

Yr amserlen ar gyfer yr adolygiad yw 12 mis cyn dyddiad y digwyddiad.

Gwybodaeth gefndirol

Cafodd baban O ei eni gartref heb ei gynllunio; cafodd ei eni gan y tad. Roedd y fam a'r tad wedi ymweld â'r ysbyty y diwrnod cynt; dilynion nhw'r cyngor a roddwyd ar y pryd, sef i ddychwelyd adref. Mynychodd criw ambiwlans a bydwraig, nid oedd unrhyw bryderon ynghylch cyflwr y babi ac arhosodd y fam a'r plentyn yn eu cartref.

Mae'r rhieni o dras Gymreig wyn. Roedden nhw'n 24 a 19 oed pan anwyd O, eu plentyn cyntaf. Mae gan y fam blentyn arall sy'n byw gyda nhw, mae gan y tad blentyn sy'n byw gyda'r fam.

Mae'r teulu'n byw mewn eiddo ar rent sydd o fewn cymuned sefydledig. Mae gan y ddau berthnasau sy'n byw yn yr ardal, ac mae'r cwpl yn eu defnyddio i gael cymorth.

Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu mewn cysylltiad â mam O yn ystod ei llencyndod gan fod pryderon ynghylch pa mor agored oedd hi i gamdriniaeth a'r risg o gamfanteisio.

Cafodd tad O brofiadau niweidiol a dirdynol yn ystod ei blentyndod. Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn ymwneud â thad O dros nifer o flynyddoedd, i ddechrau oherwydd iddo fod yn dyst i drais yn y cartref. Yn dilyn gwahanu rhieni biolegol tad O, treuliodd beth amser yn byw gyda'i dad biolegol y tu allan i Gymru, nes i'w perthynas chwalu a dychwelodd i'r ardal gartref i fyw gyda'i fam fiolegol a'i phartner. Oherwydd tensiynau yn y cartref yma gadawodd ei gartref a heb le arall i fyw a chafodd ei letya gan yr Awdurdod Lleol.

Cafodd sawl lleoliad mewn cartrefi maeth a chartrefi preswyl yn ystod y cyfnod yr oedd yn derbyn gofal. Yn ystod ei gyfnod mewn gofal maeth, adroddwyd am nifer o achosion o drais i'r heddlu, gydag ef fel cyflawnwr ond ar rai achlysuron fel dioddefwr. Pan gyrhaeddodd 18 oed a pheidio â derbyn gofal, parhaodd i dderbyn cymorth gan yr Awdurdod Lleol trwy'r ddarpariaeth 16+.

Mae gan dad O blentyn gyda phartner blaenorol; ni chafodd fawr o gysylltiad â'r plentyn nes iddo gael ei leoli gydag ef dros dro yn 3 oed, yn dilyn arestio'r fam am esgeulustod. Roedd erbyn hyn mewn perthynas â mam O ac yn byw gyda hi a'i phlentyn.

Yn ystod yr amser roedd ei blentyn yn byw gydag ef a mam O, codwyd pryderon ynghylch esgeulustod a cham-drin y ddau blentyn yn emosiynol a cham-drin domestig tuag at fam O. Cynhaliwyd gwiriadau lles, a rhoddwyd cyngor i'r cwpl. Yn dilyn ymweliad cyswllt, gwrthododd mam y plentyn adael i'r plentyn ddychwelyd at dad O, roedd yr heddlu'n

gysylltiedig. Nid oedd unrhyw sail ffurfiol i ddychwelyd y plentyn at y tad ac felly arhosodd y plentyn gyda'r fam.

Yn ystod y flwyddyn cyn marwolaeth O, ymatebodd yr heddlu i nifer o ddigwyddiadau domestig. Cyhaeddodd yr heddlu'n brydlon, siaradwyd â'r partion perthnasol a chyflwynwyd 9 Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd (PPN). Cyflwynwyd yr Hysbysiadau cychwynnol er gwybodaeth yn unig, dim ond ar ôl i sawl digwyddiad y cafodd mam O ei nodi ar yr Hysbysiadau a gyflwynwyd fel 'dioddefwr mynych'. Lle'r aseswyd risg gan yr heddlu fel 'safonol', nodir na fyddai'r Hysbysiad wedi cael ei rannu'n rheolaidd ar draws asiantaethau. Mae'r arfer yma bellach wedi newid a rhennir yr Hysbysiadau ag asiantaethau allweddol.

Ochr yn ochr â'r digwyddiadau domestig, derbyniwyd tri adroddiad trwy'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) o gam-drin corfforol honedig i'r plant. Cynhaliodd y Gwasanaethau Cymdeithasol ymholiadau cychwynnol gyda'r rhieni, yn fuan wedi hyn ac yn dilyn atgyfeiriad gan y gweithiwr cymdeithasol ar gyfer plentyn cyntaf y tad, ynglŷn â honiadau o gam-drin corfforol tuag at y plant, adolygwyd yr honiadau, a chynhaliwyd cyfarfod strategaeth. Dyrannwyd yr achos i'w asesu; fodd bynnag, ni symudodd ymlaen i ymholiadau Amddiffyn Plant (Adran 47) gan nad oedd yr asiantaethau a oedd yn bresennol yn ystyried bod y trothwy wedi'i gyrraedd.

Mae cofnodion hanesyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dangos pryderon ynghylch pa mor agored i niwed yw mam Plentyn O a'i bod yn dioddef cam-drin domestig. Nid oedd ganddi ffordd o fyw sefydlog, roedd wedi symud tŷ nifer o weithiau a theimlwyd hefyd ei bod wedi osgoi cyswllt â gweithwyr proffesiynol. Roedd ei pherthynas â thad O yn gyfnewidiol gydag adroddiadau niferus o drais domestig, gan gynnwys rhai adroddiadau gan y fam ei hunan, a chyfnodau pan oedden nhw'n byw ar wahân. Roedd pryderon nad oedd hi'n agored am statws eu perthynas a'i bod yn lleihau pryderon. Yn ogystal, ni theimlwyd ei bod hi'n gofalu am ei hanghenion iechedd ei hun, yn enwedig ei gofal cyn-geni. Roedd pryderon nad oedd hi'n darparu amgylchedd byw sefydlog i'w phlentyn ac nad oedd anghenion iechedd, gofal a lles y plentyn yn cael eu diwallu'n gyson.

Cynhaliwyd asesiad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a nodwyd anghenion cymorth; ni chanfuwyd bod y plant mewn perygl o niwed. Yn unol â dyletswyddau'r Gwasanaethau i Blant a'r agenda atal cynnar, atgyfeiriwyd at y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar gyda'r bwriad o gefnogi perthynas a rhianta'r cwpl, drwy fynd i'r afael â'u hanghenion a nodwyd. Nodwyd amcanion ymyrraeth gyda'r cwpl ac ar ôl peth petruster cychwynnol, ymgysylltodd y cwpl â gwasanaethau cymorth a chyflawnwyd rhywfaint o gynnydd yn erbyn deilliannau.

Yn y cofnodion iechedd, nodwyd bod nifer o bryderon wedi'u codi ac atgyfeiriadau amddiffyn plant wedi'u cyflwyno mewn perthynas â phryderon am ffordd anhrefnus mam O o fyw, ei bod yn symud tŷ yn aml, ei hamgylcheddau ansefydlog, diffyg cymorth teuluol a diffyg ymgysylltu â gwasanaethau bydwreigiaeth. Roedd gwybodaeth hanesyddol eisoes wedi rhestru'r pryderon parhaus yma mewn perthynas â'r plentyn arall, pan gynhaliodd yr Ymwelydd Iechyd ymweliad ar y cyd â'r Gweithiwr Cymdeithasol a oedd yn ymwneud â'r teulu ar y pryd.

Nodwyd y collwyd apwyntiadau gyda gweithwyr iechedd proffesiynol ar gyfer mam a brawd neu chwaer Plentyn O, symudwyd tŷ'n aml, ni chwblhawyd imiwneiddiadau ac roedd pryderon fod y plentyn heb ei gofrestru gyda meddyg teulu. Cododd y themau yma dro ar ôl tro ar yr atgyfeiriadau amddiffyn plant a gyflwynwyd.

Yn ystod ymweliad cartref, cynghorodd yr Ymwelydd Iechyd dad Plentyn O hefyd i fynd at ei feddyg teulu ar gyfer ei bryder hunan-gofnodedig, ar ôl i bryderon gael eu nodi ynghylch ei iechedd meddwl. Nid oes unrhyw dystiolaeth iddo geisio cymorth.

Cynhaliodd yr Ymwelydd lechyd ymweliad cartref geni sylfaenol pan gafodd Plentyn O ei eni. Pan ganfuwyd nad oedd unrhyw sterileiddiwr yn cael ei ddefnyddio, rhoddwyd cyngor ynghylch y ffordd briodol o sterileiddio poteli a gwneud bwydydd. Amlygwyd peth pryder hefyd ynghylch amgylchedd cysgu'r babi a rhoddwyd cyngor ynghylch cysgu'n ddiogel gan weithwyr bydwreigiaeth ac ymwelwyr ieuchyd proffesiynol.

ARFERION DA

Trwy gydol yr amserlen aml-asiantaeth mae tystiolaeth o drosglwyddo llafar da rhwng yr Ymwelydd lechyd a'r Gweithiwr Cymdeithasol. Cyflwynwyd atgyfeiriadau amddiffyn plant ar bob pwynt yr oedd gweithwyr lechyd yn codi pryderon, ac roedd hyn yn parhau i fod yn gyson.

Roedd Bydwreagedd ac Ymwelwyr lechyd wedi ailadrodd cyngor ynghylch cysgu'n ddiogel i'r rhieni. Nodwyd hyn hefyd ar gyfer y plentyn hŷn.

Roedd gweithwyr proffesiynol yn gweithio'n frwd i ymgysylltu â'r ddau riant ac roedden nhw'n gyson hyd yn oed pan gawsant ymateb negyddol.

Roedd rhannu gwybodaeth a gwaith rhyngasiantaethol effeithiol rhwng Carfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau y Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu a Heddlu Trafnidiaeth Prydain wrth ymdrin â digwyddiad pan adroddwyd bod y fam a'r ferch ar goll.

Siaradodd y rhieni yn gadarnhaol am y cymorth a gawsant gan asiantaethau yn y cyfnod uniongyrchol ar ôl marwolaeth eu plentyn.

Safbwynt y rhieni

Yn unol â'r broses Adolygiad Ymarfer Plant, ymwelwyd â'r teulu yn eu cartref i drafod eu dymuniadau a'u teimladau ynglŷn â'r cymorth, yr ymyrraeth, a'r wybodaeth a gawsant cyn ac ar ôl marwolaeth eu plentyn. Eglurwyd i rieni Plentyn O y byddai'r wybodaeth yma'n cael ei rhannu gyda'r Panel Adolygu Ymarfer Plant ac mai pwrpas hyn yw gwella'r broses a sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig yn nodi ac yn rhannu unrhyw ddysgu o fewn eu hasiantaethau.

Dywedodd y tad fod eu plentyn wedi'i eni gartref ar ôl cael ei ryddhau o'r ysbyty. Dywedodd fod geni'r babi gartref yn "frawychus" a themlai na wrandawyd ar ei bartner ac y dylen nhw fod wedi aros yn yr ysbyty. Rhannodd y fam ei bod yn teimlo ychydig yn isel ei hysbryd ar ôl i'w babi gael ei eni, gan ddweud y byddai'n cael trafferth codi, bwydo a chysuro ei babi. Dyma'r rheswm pam y cymerodd ei phartner rôl y rhiant arweiniol.

Teimlai'r fam nad oedd llawer o gefnogaeth yn cael ei rhoi pan ddaeth yn fam am yr eildro a'i bod yn teimlo bod pawb yn meddwl y byddai'n gwybod beth i'w wneud.

Roeddent yn gadarnhaol iawn am Swyddogion Cyswllt Teuluol yr Heddlu a oedd yn eu cefnogi ar adeg eu colled ac yn teimlo eu bod yn gwrando'n wirioneddol ar yr hyn oedd ganddyn nhw i'w ddweud.

Dysgu mewn perthynas ag ymarfer a dysgu sefydliadol

Thema Allweddol 1 - Deall perthnasedd a phwysigrwydd cronolegau

- * Mae cronolegau yn arfau defnyddiol mewn asesu ac ymarfer. Maen nhw'n bwysig gan eu bod yn gallu rhoi hanes teulu cryno ac yn ddefnyddiol wrth nodi themâu a thueddiadau er mwyn nodi gwendidau blaenorol a chyfredol.
- * Er bod cronolegau yn bresennol ar draws ffeiliau asiantaethau, roedd anghysondebau yn yr ansawdd. Doedd dim cofnod o rai digwyddiadau arwyddocaol ac nid oedd pob cofnod yn gyfredol. Pan aned Plentyn O, ni throsglwyddwyd y gronoleg o gofnodion Ymwelwyr Iechyd y plentyn hynaf i gofnodion y plentyn ieuengaf.

Thema Allweddol 2 – Archwilio a oedd unrhyw gyfleoedd wedi'u colli ar gyfer ymyrraeth bwysig gan asiantaethau

- * Mae'r llinell amser yn dangos yn glir bod cyfleoedd wedi'u colli i bob asiantaeth adolygu'r cymorth a oedd yn cael ei ddarparu i'r teulu. Mae themâu clir o gam-drin domestig, symud tŷ'n aml a diffyg sefydlogrwydd i'r teulu. Yn ogystal, collwyd apwyntiadau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer y plentyn hŷn a chollwyd apwyntiadau gofal cyn geni. Mae pryderon ynghylch cyflwr y cartref hefyd yn thema gyson.
- * Gwnaeth y teulu symud tŷ nifer o weithiau, o fewn a thu allan i ardal yr awdurdod lleol. Gwnaeth yr adran Iechyd atgyfeiriad gyda phryderon, ond ni chafodd y rhain eu hystyried yn risg, ac o ganlyniad ni chynhaliwyd asesiad o effaith y newid mewn amgylchiadau ar y plentyn.
- * Mae gweithio gyda'r rhieni a chwilfrydedd proffesiynol yn allweddol. Er bod y rhieni'n cydnabod y cyngor a'r arweiniad a roddwyd gan weithwyr proffesiynol, nid oeddent o reidrwydd yn ei ddilyn, er enghraifft defnyddio gobennydd yn y crud. Roedden nhw'n defnyddio'r rhyngrwyd i ddod o hyd i wybodaeth, ac roedd ganddyn nhw rai safbwyntiau diysgog ar sut i fagu plant. Nid oedd gan weithwyr proffesiynol ddealltwriaeth glir o allu'r cwpl i ofalu am y plant yn ddiogel. Nid oedd digon o chwilfrydedd proffesiynol ynghylch ymddygiad rhieni ac o ran nodi unrhyw batrymau a allai fod wedi peri risg i'r babi a'r plentyn hŷn.
- * Dywedodd y ddau riant eu bod nhw'n ymdopi a'u bod yn cadw mewn cysylltiad â gweithwyr proffesiynol perthnasol. Roedd yr hunan-adrodd yma eu bod yn cydweithredu yn ddangosydd o 'gydymffurfiaeth gelwyddog', ond fe'i cymerwyd ar yr olwg gyntaf gan weithwyr proffesiynol. O ystyried yr wybodaeth berthnasol a hanes y ddau riant, a oedd gan asiantaethau allweddol, megis profiadau plentynod niweidiol y ddau oedolyn, collwyd cyfleoedd i gynnal asesiad cadarn o anghenion y plant ac aelodau'r teulu.
- * Profodd mam Plentyn O gam-drin domestig. Roedd tystiolaeth bod tad O wedi bod yn dreisgar mewn perthnasoedd blaenorol. Effeithiwyd ar synnwyr personol o allu'r fam gan ei ddylanwad a'i ymddygiad rheolaethol. Collwyd cyfleoedd gan weithwyr proffesiynol i dargedu ymholiadau am gam-drin domestig yn briodol. Gallai hyn fod oherwydd na theimlwyd bod unrhyw bryderon uniongyrchol neu risg uniongyrchol o niwed yn bresennol.

- * Canlyniad cysylltiedig hyn oedd na roddwyd digon o ystyriaeth i effaith bosibl ymddygiad rheolaethol a cham-drin domestig ar allu'r fam i fagu ac amddiffyn y plant.
- * Ymatebodd yr heddlu i ddigwyddiad o anghydfod rhwng cymdogion. Roedd yr ymateb cychwynnol yn effeithiol. Serch hynny, bu oedi o 11 wythnos o ran rhannu gwybodaeth am ymddygiad gwrthgymdeithasol â'r Gymdeithas Tai, ac ni chafwyd atgyfeiriad am ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Thema Allweddol 3 – Perthnasedd cyfathrebu da a throsglwyddo gofal/gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol/asiantaethau

- * O fewn cyfnod o 12 mis roedd tystiolaeth o 3 atgyfeiriad amddiffyn plant wedi'u gwneud o ffynonellau lluosog lle nad oedd gan wasanaethau unrhyw wybodaeth gychwynnol na goruchwyliaeth o bryderon ei gilydd.
- * Pe bai gwybodaeth am y pryderon a arweiniodd at yr atgyfeiriadau a'r camau a gymerwyd wedi'u rhannu rhwng asiantaethau, yna mae'n bosibl y byddai cwestiynau ynghylch y penderfyniad i gamu i lawr i'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar wedi'u codi. Gallai asiantaethau fod wedi gofyn am gyfarfod strategaeth i herio'r penderfyniad lle gallai'r pryderon cynyddol ynghylch symud tŷ'n aml ac apwyntiadau iechyd ac apwyntiadau cyn-geini a gollwyd fod wedi cael eu trafod.
- * Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol o'r farn bod yr atgyfeiriadau yma'n ynysig ac nid yn gronol. Golygai hyn nad oedd y risg diogelu yn cael ei hystyried yn ddigon arwyddocaol ar gyfer asesiad parhaus pellach, gydag adborth cyfyngedig ynghylch canlyniadau'r atgyfeiriadau a roddwyd i'r atgyfeiriwr.
- * Mae Gwasanaeth Atal a Chymorth Cynnar Awdurdodau Lleol yn cefnogi teuluoedd lle bu eu hachos naill ai:
 - i) Wedi'i gyfeirio at y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ond nid yw'n cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyrraeth statudol gan y Gwasanaethau Plant; neu
 - ii) Wedi 'camu i lawr' o ymyrraeth Gwasanaethau i Blant.

Cynhaliodd y Gwasanaeth raglen chwe wythnos o waith gyda'r teulu. Roedd y rhieni yn eithaf amharod i ymgysylltu, a phan ddechreuodd y gwaith, dargyfeiriwyd sylw at anghenion yr oedolion, gan golli rhywfaint o ganolbwynt a dealltwriaeth o effaith eu hymddygiad ar anghenion y plentyn a'r baban heb ei eni.

- * Mae Cofnodion Iechyd yn nodi bod safon y cyfathrebu rhwng y teulu a staff gofal iechyd, a staff rhyngbroffesiynol yn annigonol; yn enwedig mewn perthynas â rhannu gwybodaeth am ddeinameg y teulu, ac anawsterau wrth gynnal cyswllt ac ymgysylltiad teuluol.
- * Yn ystod asesiadau cychwynnol gan yr adran Iechyd, cofnodwyd nad oedd unrhyw bryderon diogelu ac ni nodwyd unrhyw fregusrwydd. Serch hynny, roedd pryderon blaenorol ynghylch y plentyn hŷn ynghylch sefydlogrwydd y teulu, symud tŷ a Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd gan yr Heddlu.
- * Roedd gan y teulu gysylltiad blaenorol â Gwasanaethau i Blant hefyd. Pe bai gwasanaethau iechyd yn gwybod am yr wybodaeth yma, efallai y byddai canlyniad

yr asesiad cychwynnol yn yr apwyntiad bwcio wedi arwain at fwy o chwilfrydded proffesiynol. Dyma enghraifft o asiantaethau iechyd o bosibl yn gweithio ar eu pen eu hunain a ddim yn rhannu gwybodaeth berthnasol er mwyn llywio asesiad mwy trylwyr o amgylchiadau'r teulu.

- * Doedd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ddim mynediad i systemau data electronig yr awdurdod cyfagos i gael mynediad at wybodaeth am y teulu. Golygai hyn bod gwybodaeth allweddol, ac o bosibl pryderon hanesyddol, ddim yn hysbys. Bellach mae modd cyrchu cofnodion digidol rhwng gwasanaethau ac ar draws ffiniau rhanbarthol, gan alluogi rhannu gwybodaeth berthnasol a phriodol ar yr adeg y mae ei hangen.

Thema Allweddol 4 - Ymholiad rheolaidd a'r cyfle i archwilio unrhyw bryderon

- * Dylai Gwasanaethau Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd ymholi'n rheolaidd i gam-drin domestig ar bob cyfle posibl. Mae'r Gwasanaethau Iechyd wedi tynnu sylw at y ffaith bod tad O yn bresennol mewn nifer o'r apwyntiadau a hefyd wedi ateb ffôn y fam. Cynhaliwyd ymholiad rheolaidd gan fydwragedd ac ymwelwyr iechyd, ond byddai'r ffaith ei bod yn anodd cael gafael ar fam O ar ei phen ei hun a nifer yr Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd a dderbyniwyd, wedi awgrymu y dylai gweithwyr proffesiynol fod wedi ystyried strategaethau amgen i ymgysylltu'n ddiogel â hi yn unig.
- * Mae pob Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd ar lwythi achosion gwag yn cael eu dyrannu i'w hasesu yn unol â Pholisi Llwyth Achosion Gwag Ymwelwyr Iechyd. Oherwydd bod y plentyn o dan lwyth achosion gwag (heb ymwelydd iechyd wedi'i neilltuo), cafodd ymwelydd iechyd arall yn y garfan wybod am ddigwyddiad yn y cartref trwy Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd. Ceisiodd yr ymwelydd iechyd yma gysylltu dros y ffôn heb ateb, ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach. Oherwydd nifer yr Hysbysiadau blaenorol a dderbyniwyd ar gyfer y teulu dylai hyn fod wedi cyfiawnhau ymweliad cartref yn unol â Chanllawiau Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd Ymwelwyr Iechyd. Byddai cronoleg gyfredol wedi bod yn allweddol i'r ymwelydd iechyd yma, oedd ddim yn adnabod y teulu, nodi thema barhaus o gam-drin domestig.

Thema Allweddol 5 - Effaith cyfyngiadau a heriau COVID ar bob asiantaeth

- * Ar ddechrau'r pandemig Covid-19, cyflwynwyd cyfyngiadau yn gyflym iawn a rhoddwyd yr ymwelydd iechyd a neilltuwyd ar gyfer yr achos yma ar y rhestr warchod. Gan ddoedd y teulu yn yr achos yma ddim yn cael ei ystyried i fod yn deulu bregus, oherwydd i'w achos gael ei nodi yn achos "arferol" ni chawson nhw eu trosglwyddo i ymwelydd iechyd arall yn unol â'r Polisi Llwyth Achosion Gwag. Doedd dim trefniadau trosglwyddo gofal wedi'i ddogfennu yn y cofnodion a doedd dim tystiolaeth o unrhyw bryderon parhaus.
- * Ymwelodd yr heddlu â'r cartref yn ystod y cyfnod cloi cychwynnol mewn ymateb i adroddiadau o anghydfod. Cafwyd cyswllt dilynol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol; cynigiwyd cymorth i'r teulu ond fe'i gwrthodwyd. Doedd y teulu ddim yn cael ei ystyried yn bregus; roedd hyn yn seiliedig ar gyflwyno gwybodaeth heb roi digon o ystyriaeth i gyfranogiad aml-asiantaeth yn y gorffennol.

Thema Allweddol 6 - Trothwyon

- * Cafodd atgyfeiriadau at asiantaethau eu trin ar eu pen eu hunain, ac nid oedden nhw'n ystyried cysylltiadau blaenorol, na gwybodaeth hanesyddol o ffynonellau eraill. Mae'n ymddangos nad oedd atgyfeiriadau unigol ddim yn ddigon i gyrraedd y trothwyon ar gyfer amddiffyn plant. Roedd sgrinio ac asesu cychwynnol yn canolbwyntio ar gynnwys yr atgyfeiriadau; fe'u gwelwyd ar wahân ac nid oeddent yn ystyried hanes achos.
- * Pan mae atgyfeiriad yn cael ei dderbyn ar gyfer plentyn sy'n achos agored, mae'r garfan unigol yn cymryd cyfrifoldeb am asesu a gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylai'r atgyfeiriad gael ei uwchgyfeirio i amddiffyn plant. Arfer da fyddai dull asesu aml-asiantaeth ac adolygiad o gronolegau asiantaethau lle mae pryder newydd am achos agored, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau amlasiantaethol yn cael eu gwneud ynghylch a ddylai symud yr achos ymlaen i amddiffyn plant.

Gwella Systemau ac Ymarfer

- * Mae angen i wasanaethau Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd ddatblygu proses rhannu gwybodaeth reolaidd a chyson er mwyn rhannu gwybodaeth berthnasol am deuluoedd y nodwyd eu bod yn agored i niwed.
- * Dylai pob asiantaeth adolygu a diweddarau eu harweiniad mewn perthynas â Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd a'r asesiad o'r effaith / risgiau sy'n cael eu peri i blant gan gam-drin domestig.
- * Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd a Bydwreigiaeth i gwblhau archwiliad o ymholiadau rheolaidd i sefydlu cydymffuriad.
- * Defnydd o gronolegau: Mae modd i gronoleg effeithiol helpu i nodi risgiau, patrymau a phroblemau ym mywyd plentyn. Mae modd iddo helpu i gael gwell dealltwriaeth o effaith uniongyrchol neu gronol digwyddiadau. Mae'n gallu cynorthwyo ymarferwyr i wneud cysylltiadau rhwng y gorffennol a'r presennol, yn yr achos yma, er enghraifft, ystyried effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod y rhieni ar eu perthynas a'u dull o fagu plant. Dylai cronolegau fod yn bresennol ym mhob achos.
- * Cafodd atgyfeiriadau at asiantaethau eu trin ar eu pen eu hunain, ac nid oedden nhw'n rhoi ystyriaeth lawn i gysylltiadau blaenorol, gan nad oedd atgyfeiriadau unigol yn ddigon i fodloni'r trothwyon ar gyfer amddiffyn plant. Roedd sgrinio ac asesu cychwynnol yn canolbwyntio ar gynnwys yr atgyfeiriadau; edrychwyd arnyn nhw ar wahân ac nid oeddent yn ystyried hanes achos. Yr Awdurdod Lleol i adolygu prosesau sgrinio i sicrhau bod pryderon diogelu yn cael eu cydnabod a bod ymateb priodol iddyn nhw.
- * Dylai ymarferwyr fod yn effro i batrymau o ymddygiad gorfodol neu reolaethol, yn ogystal â digwyddiadau o gam-drin. Dylai asiantaethau sicrhau bod ymarferwyr, wrth weithio gydag unigolion a all fod yn profi cam-drin domestig, yn gwybod sut i ymholi'n ddiogel am drais neu gam-drin ac i ddangos y ffordd at wasanaethau cymorth.
- * Dylai gweithwyr proffesiynol barhau i fod yn chwifrydig yn broffesiynol wrth weithio gydag unigolion a theuluoedd. Dylen nhw archwilio a deall yr hyn sy'n digwydd o fewn teulu yn hytrach na gwneud rhagdybiaethau neu dderbyn pethau ar yr olwg gyntaf. Dylen nhw hefyd driongli gwybodaeth y maen nhw'n ei derbyn, gyda

chadarnhad annibynnol gan weithwyr proffesiynol eraill a / neu aelodau eraill o'r teulu. * Dylai asiantaethau gynorthwyo gweithwyr proffesiynol i gydnabod pan fydd unigolyn/unigolion yn gwrthwynebu ymgysylltu â gwasanaethau a sut mae modd i hyn amlygu ei hun. Dylen nhw hefyd gefnogi staff i ddeall achosion ymddygiad anghydweithredol ac ystyried strategaethau i asesu ffactorau risg yn effeithiol a mynd i'r afael â chymhelliant i newid. * Yr heddlu i sicrhau bod gwybodaeth yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol (YG) yn cael ei chyflwyno i asiantaethau perthnasol yn unol â phroses YG Heddlu De Cymru a heb oedi afresymol. Lle mae Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd wedi'i nodi i'w rannu, dylid ei gwblhau mewn modd amserol er mwyn hysbysu'r asiantaethau allweddol priodol.

Datganiad gan yr Adolygydd/Adolygwyr			
ADOLYGYDD 1	Claire Holt	ADOLYGYDD 2 (fel sy'n briodol)	Nadine Long
Datganiad o annibyniaeth o'r achos <i>Datganiad cymhwysedd Sicrwydd Ansawdd</i>		Datganiad o annibyniaeth o'r achos <i>Datganiad cymhwysedd Sicrwydd Ansawdd</i>	
Gwnaf y datganiad canlynol:- Cyn cymryd rhan yn yr adolygiad dysgu yma:- • Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn neu'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. • Nid wyf wedi cael unrhyw reolaeth llinell uniongyrchol o'r ymarferwr/ymarferwyr dan sylw. • Mae gen i'r cymwysterau, gwybodaeth, profiad a hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad. • Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr yn ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r		Gwnaf y datganiad canlynol:- Cyn cymryd rhan yn yr adolygiad dysgu yma:- • Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn neu'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. • Nid wyf wedi cael unrhyw reolaeth llinell uniongyrchol o'r ymarferwr(wyr) dan sylw. • Mae gen i'r cymwysterau, gwybodaeth, profiad a hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad. • Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr yn ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r	

materion a nodir yn y cylch gorchwyl.		materion a nodir yn y cylch gorchwyl.	
Adolygydd 1	<i>A C Holt</i>	Adolygydd 2	<i>N Long</i>
Enw	Claire Holt 29/07/2022	Enw	Nadine Long 29/07/2022
Cadeirydd y Panel Adolygu (Llofnod)			
			
Terri Warrilow		Dyddiad 29/07/2022	

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl
Atodiad 2: Amserlen Gryno

At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig

Dyddiad derbyn yr wybodaeth

Dyddiad yr anfonwyd llythyr cydnabod i gadeirydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant.....

Dyddiad rhannu ag arolygiaethau perthnasol/arweinwyr polisi

Asiantaethau	✓	X	Rheswm
AGGCC	☐	☐	
Estyn	☐	☐	
AGIC	☐	☐	
Arolygydd Heddlu ei Mawrhydi	☐	☐	
Arolygydd Gwasanaeth Prawf ei Mawrhydi	☐	☐	

ATODIAD 1 – CYLCH GORCHWYL - PANEL ADOLYGU YMARFER PLANT CRYNO CTMSB 5/2020

Manylion Cyfeirnod yr Achos

Plentyn O CTMSB 5/2020

Amgylchiadau'n arwain at yr Adolygiad Ymarfer Plant

Codwyd pryderon yng nghyfarfod Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentynod (PRUDiC) Cam 1 yn dilyn marwolaeth Plentyn O. Roedd Plentyn O yn 3 mis oed ar adeg y farwolaeth. Dywedodd rhieni fod Plentyn O wedi cael ei roi i gysgu am 7pm mewn ystafell wely yn yr atig oddi ar y brif ystafell wely, roedd Plentyn O mewn cot teithio gyda gobennydd a blancedi yn bresennol. Clywyd plentyn O yn “chwerthin” yn ei gwsg tua 10pm ac yna setlo (heb ei wirio). Y bore canlynol daeth y fam o hyd i blentyn O â'i wyneb i lawr yn y crud am 10am (13 awr yn ddiweddarach) ac ni allai weld ei frest yn codi neu'n cwmpo. Gwnaed galwad 999 i'r Gwasanaeth Ambiwlans.

Asiantaethau Cysylltiedig

Roedd yr asiantaethau canlynol yn ymwneud â Phlentyn O, a bydd y rhain yn cwblhau llinell amser a dadansoddiad o'u rhan:

- Gwasanaethau i Blant
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Heddlu De Cymru

Tasgau Craidd

Tasgau Craidd y Panel Adolygu Ymarfer Plant yma yw:

- Darganfod a oedd penderfyniadau a gweithrediadau'r achos yn cydymffurfio â gweithdrefnau'r gwasanaethau sydd wedi'u henwi, a'r Bwrdd.
- Archwilio sut mae asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd a sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu i'r unigolyn ac i'r teulu.
- Darganfod i ba raddau roedd y penderfyniadau a'r gweithrediadau yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Galw am gyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol y teulu a rhoi gwybod iddyn nhw am agweddau allweddol yn y datblygiadau.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau tebyg neu drafodion yn ymwneud â'r achos.
- Cynnal achlysur dysgu i ymarferwyr a nodi'r adnoddau sydd eu hangen.

Tasgau penodol y Panel Adolygu:

- Pennu a chomisiynu adolygydd/adolygwyr i weithio gyda'r Panel Adolygu yn unol â'r canllawiau ar gyfer ymarfer plant.
- Cytuno ar amserlen.
- Pennu asiantaethau, gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol i gyfrannu at yr adolygiad, llunio llinell amser a chrynodeb achos cychwynnol, a nodi unrhyw gamau sydd eisoes wedi eu cymryd.
- Llunio llinell amser gyfunedig, dadansoddiad a damcaniaethau cychwynnol.

- Trefnu achlysur dysgu i ymarferwyr gyda'r adolygydd / adolygwyr, a fydd yn cynnwys pennu ymarferwyr i fod yn bresennol a threfniadau i'w paratoi nhw a bod yn gymorth iddyn nhw cyn ac ar ôl yr achlysur, ynghyd â threfniadau adborth.
- Cynllunio gyda'r adolygydd / adolygwyr drefniadau i gysylltu ag aelodau'r teulu cyn yr achlysur.
- Derbyn adroddiad drafft yr adolygiad ymarfer plant / oedolion, a'i ystyried i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi cael ei fodloni, bod y rhagdybiaethau gwreiddiol wedi cael sylw priodol, a bod unrhyw beth sydd wedi'i ddysgu o'r broses wedi'i nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adolygiad ac amlinelliad o'r cynllun gweithredu, a gwneud penderfyniadau ar gyfer ei gyflwyno i'r Bwrdd Diogelu Cwm Taf i gael ei ystyried a'i gytuno.
- Trefnu adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl ei orffen, a chyn ei gyhoeddi.

Meysydd Canolbwynt Ychwanegol

Roedd tad Plentyn O yn arfer bod yn blentyn oedd yn derbyn gofal.

Unrhyw Adolygiadau Cyfochrog neu Weithgaredd Eraill o'r Fath i gael ei nodi

I redeg yn gyfochrog ag Ymchwiliad y Crwner.

Amserlen ar gyfer yr Adolygiad

Yr amserlen a bennwyd ar gyfer yr Adolygiad yw 27/04/2019 tan 27/04/2020. Adroddiadau cryno i'w cwblhau cyn hyn.

Achlysur Dysgu

Bydd yr achlysur dysgu yn sicrhau bod llais ymarferwyr yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr adolygiad a bod modd i ymarferwyr glywed safbwyntiau'r teulu. Mae disgwyl i ymarferwyr a rheolwyr fod yn bresennol os ydyn nhw'n cael gwahoddiad. Bydd pob ymarferydd yn myfyrio ar yr hyn a ddigwyddodd ac yn nodi'r hyn sydd wedi'i ddysgu er mwyn llywio'r ymarfer yn y dyfodol.

Mae'r Panel Adolygu yn gyfrifol am gynorthwyo'r adolygwyr i gynnal achlysur dysgu effeithiol.

Tasgau'r Bwrdd Diogelu

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu'r Bwrdd i gael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Anfon yr adroddiad a'r cynllun gweithredu at asiantaethau perthnasol i gael sylwadau terfynol cyn ei gymeradwyo a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhau'r trefniadau ar gyfer y cynllun gweithredu amlasiantaeth gan yr Is-grŵp Adolygiadau, gan gynnwys y modd y bydd gwelliannau'r gwasanaeth a ragwelir yn cael eu pennu, eu monitro a'u hadolygu.
- Trefnu i'w gyhoeddi ar wefan y Bwrdd.
- Cytuno pryd a sut i rannu'r adroddiad ag asiantaethau a hefyd gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol.
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am wneud yr holl sylwadau cyhoeddus ac am ymateb i ddiddordeb y cyfryngau ynghylch yr adolygiad nes bod y broses wedi'i chwblhau.

ATODIAD 2: CRYNODEB O'R LLINELL AMSER

Ebrill 2019	Adroddwyd sawl pryder i asiantaethau ynghylch cam-drin domestig ac esgeulustod.
Mai 2019	Adroddiadau pellach o drais domestig a phryderon am blant. Plentyn y tad yn dychwelyd at y fam (cyn bartner).
Mehfin 2019	Adroddiadau pellach, cyfarfod strategaeth wedi'i gynnal ond ni chyrhaeddwyd y trothwy ar gyfer A47.
Gorffennaf 2019	Achos wedi'i drosglwyddo i RF ac mae'r asesiad wedi'i ddechrau
Tachwedd 2019	Ar gau i RF gydag argymhellion ar gyfer cymorth pellach yn eu lle
Ionawr 2020	Geni Plentyn O
Ebrill 2020	Adroddiad o ddigwyddiad domestig, yr Heddlu wedi'i alw a Gwasanaethau i Blant wedi'u hysbysu – dim angen gweithredu pellach
Ebrill 2020	Marwolaeth Plentyn O.